
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# RHWYDWAITH TRAMOR




Mawrth 2023

# SWYDDFEYDD RHYNGWLADOL LLYWODRAETH CYMRU





OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46915

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg



Llundain
Berlin
Düsseldorf
Beijing
Doha
Tokyo
Shanghai
Dubai
Chongqing
Delhi Newydd
Mumbai
Bangalore

# TSIEINA






## Qingyun Ma

**Ebost:** qingyun.ma001@gov.wales

Fi yw Prif Gynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Chongqing. Mae gen i 16 mlynedd o brofiad o gefnogi busnesau a sefydliadau Cymru yn rhanbarthau De-orllewin Tsieina (Chongqing, Sichuan, Yunnan, Guizhou) a rhan ganolog Tsieina (Hubei, Hunan, Henan).



## Karen Sun

**Ebost:** karen.sun@gov.wales

Fi yw Prif Gynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Shanghai a Dwyrain Tsieina. Mae gen i 10 mlynedd o brofiad o gefnogi busnesau Cymru i gael mynediad at farchnad Tsieina gyda ffocws arbennig ar weithgynhyrchu uwch, gwyddorau bywyd, manwerthu a bwyd a diod.



## Susan Jiang

**Ebost:** susan.jiang@wales-uk.com

Fi yw Prif Gynrychiolydd Llywodraeth Cymru dros Beijing a Gogledd-Orllewin Tsieina. Mae gen i dros 17 mlynedd o brofiad o gefnogi cwmnïau o Gymru i gael mynediad at farchnad Tsieina ac i ddatblygu eu busnesau mewn sectorau megis gwyddorau bywyd, uwch-weithgynhyrchu, addysg a bwyd a diod.

# TSIEINA



## Peggy Wang

**Ebost:** peggy.wang001@gov.wales

Ymunais â swyddfa Chongqing Llywodraeth Cymru yn 2017 yn cefnogi busnesau Cymru i archwilio De-Orllewin a chanol Tsieina a chynorthwyo sefydliadau addysgol Cymru i sefydlu partneriaethau a nodi cyfleoedd buddsoddi mewnol posibl a phrosiectau allforio/ masnach i Gymru




## Karen Xing

**Ebost:** karen.xing@gov.wales

Fi yw Uwch Swyddog Materion Cymru Llywodraeth Cymru yn Chongqing. Mae gen i dros 10 mlynedd o brofiad yn cefnogi cwmnïau a sefydliadau Cymru sy'n gwneud busnes yn Ne Orllewin Tsieina. Rwyf hefyd yn arwain ar gysylltiadau cyhoeddus a hyrwyddo digidol Cymru yn Tsieina.

ALLFORIO YN NEWYDD ICHI?
DECHREUWCH EICH TAITH GYDA NI.

# SIAPAN





## Yoko Kobori

**Ebost:** yoko.kobori@gov.wales

Rwyf wedi gweithio i Lywodraeth Cymru ers 27 mlynedd ar brosiectau allforio/masnach a buddsoddi i Gymru. Mae gen i ffocws newydd ar fwyd a diod, yn ogystal â nwyddau traul, twristiaeth, addysg, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus.



## Goro Okada

**Ebost:** goro.okada@gov.wales

Ers 2003, rydw i wedi bod yn cefnogi cwmnïau o Gymru i allforio i Siapan, yn ogystal ag annog Siapaneaid i fuddsoddi yng Nghymru. Rwy'n ymdrin ag ystod eang o sectorau, ac mae fy ffocws diweddar wedi bod ar sector technoleg Cymru, gan gynnwys lled-ddargludyddion cyfansawdd, seiberddiogelwch, ynni gwyrdd a seilwaith – sectorau o ddiddordeb allweddol i fusnesau Siapan.



## Akiko Hashimoto

**Ebost:** akiko.hashimoto@gov.wales

Ymunais â swyddfa Llywodraeth Cymru yn Siapan yn 2008. Fy rôl bresennol yw cefnogi tîm Siapan gyda gweithgareddau hyrwyddo Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor a Masnach gyda sectorau penodol megis Technoleg Feddygol, Heneiddio'n Iach, Prydferthwch a Chwaraeon. Mae Expo 2025 yn Osaka yn faes newydd ac rwyf yn meithrin y berthynas rhwng Cymru a Siapan er mwyn i Gymru fanteisio i'r eithaf.



# INDIA



## Divya Hegde

**Ebost:** divya.hegde@gov.wales

Mae gen i 14 mlynedd o brofiad yn gweithio i Lywodraeth Cymru yn Ne India, wedi fy lleoli yn Bangalore. Yn ddiweddar rwyf wedi cymryd cyfrifoldeb ychwanegol am Delhi Newydd a marchnadoedd Chandigarh. Rwy'n arwain ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a lluosyddion megis y llywodraeth, diwydiant, academia a sefydliadau ymchwil er mwyn hwyluso allforion a buddsoddi yng Nghymru gan ganolbwyntio'n benodol ar dechnoleg, gwyddorau bywyd a gweithgynhyrchu uwch.



## Fiona Rodrigues

**Ebost:** fiona.rodrigues@gov.wales

Wedi fy lleoli ym Mumbai fel Uwch Gynrychiolydd Llywodraeth Cymru – Gorllewin a Gogledd India, rwyf wedi cynorthwyo cwmnïau o India i fuddsoddi, cydweithio a llwyddo yng Nghymru gan helpu cwmnïau o Gymru i lwyddo mewn marchnadoedd byd-eang am dros 13 o flynyddoedd. Rwy'n gweithio ar draws sawl sector diwydiant i helpu cwmnïau sector cyhoeddus a phreifat i allforio, masnachu a buddsoddi. Mae fy nghysylltiadau â llywodraethau, ymgynghorwyr masnach a chyrff amrywiol y diwydiant wedi fy helpu i fod yn gatalydd wrth nodi cyfleoedd i Gymru.

## YN EDRYCH AR FARCHNADOEDD ALLFORIO NEWYDD? GALLWN NI HELPU!

# GWLAD BELG






## Laura Norris

**Ebost:** laura.norris@gov.wales

Fe ymunais â swyddfa Llywodraeth Cymru Brwsel yn 2022 wedi dros 15 mlynedd o waith datblygu rhyngwladol. Rwy'n arwain ein tîm masnach a buddsoddi o ddau berson. Fel rhan o'n rôl, rydym yn cefnogi busnesau Cymru gyda gwybodaeth am gyfleoedd masnach a hyrwyddo ar draws pob marchnad Ewropeaidd lle nad oes gan Lywodraeth Cymru swyddfa benodol. Rydym yn ffocysu yn arbennig ar Wlad Belg, yr Iseldiroedd, Sbaen, yr Eidal, y Swistir a'r Gwledydd Nordig ac rydym mewn sefyllfa dda i gefnogi gyda chysylltiadau busnes ar draws ystod o sectorau.



# FFRAINC



## Robin Walker

**Ebost:** robin.walker002@gov.wales

Rwy'n bennaeth ar dîm bach Llywodraeth Cymru ym Mharis, gan gefnogi datblygiad cysylltiadau economaidd a diwylliannol. Ochr yn ochr â'r berthynas amlwg â Llydaw a chysylltiadau yn y sectorau awyrofod a seiber-ddiogelwch, mae cysylltiadau gyda Grenoble ym maes lled-ddargludyddion a chyfleoedd technoleg uwch a bwyd a diod yn datblygu o Gwpan Rygbi'r Byd yn 2023 yn Ffrainc.



## Elizabeth Nixey

**Ebost:** elizabeth.nixey@gov.wales

Ymunais â swyddfa Llywodraeth Cymru yn Ffrainc fel Rheolwr Cysylltiadau Allanol a Masnach yn 2021, wedi dros 5 mlynedd o brofiad o ddarparu cymorth arbenigol i gwmnïau Prydeinig er mwyn deall a gwerthu'n llwyddiannus i farchnad Ffrainc. Nod swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mharis yw datblygu cysylltiadau ymhellach ar draws rhanbarthau Ffrainc a nodi cyfleoedd i arddangos Cymru.

# YR ALMAEN





## Ivon van Heugten

**Ebost:** ivon.vanheugten@gov.wales

Ers haf 2022, dwi'n bennaeth ar swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn yr Almaen, yn Berlin a Düsseldorf, wedi pedair blynedd yn Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Ffrainc. Mae gennym glwstwr cryf o gysylltiadau busnes ledled yr Almaen, ac rydym mewn sefyllfa dda i gefnogi busnesau Cymru ar eu taith allforio.



## Marc Shanker

**Ebost:** marc.shanker@gov.wales

Fel Uwch Reolwr Datblygu Busnes i Lywodraeth Cymru yn ein swyddfa yn Düsseldorf, rwy'n dod ag 18 mlynedd o brofiad masnach dwyochrog mewn adeiladu pontydd rhwng y DU a'r Almaen. Gydag economi aeddfed ac amrywiol yr Almaen a datblygiad cyson Cymru ym maes arloesi a'i hysbryd arloesol, rwy'n gofalu am bortffolio eang o sectorau diwydiant sy'n cysylltu pobl â syniadau dewr.



## Martha Pawlita

**Ebost:** martha.pawlita@gov.wales

Rwyf wedi bod yn gweithio i Swyddfa'r Almaen Llywodraeth Cymru fel Rheolwr Cysylltiadau Allanol a Masnach ers Gorffennaf 2019. Wedi fy lleoli yn Berlin, rwy'n cefnogi datblygu busnes rhwng Cymru a'r Almaen, yn hyrwyddo Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang, ac yn cefnogi gweithgareddau ar y cyd ym maes diwylliant, ymchwil ac arloesi.

# IWERDDON



## Iain Quick

**Ebost:** iain.quick@gov.wales

Cafodd Iain ei benodi yn Bennaeth Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn yn 2022 ac mae wedi gweithio ym maes datblygu busnes rhyngwladol ers dros 15 mlynedd. Mae tîm Iwerddon yn rhoi ystod o gymorth i gwmnïau o Gymru i'w helpu i gael mynediad at farchnad Iwerddon. Gan gynnwys, cyfleoedd cwrdd â phrynwyr mewn sectorau allweddol, digwyddiadau mynediad i'r farchnad a chefnogi ymweliadau masnach i'r farchnad.



## Rhiannon Evans

**Ebost:** rhiannon.evans23@gov.wales

Ym mis Awst 2019, cefais fy mhenodi'n Rheolwr Cysylltiadau Allanol yn Swyddfa Llywodraeth Cymru, Dulyn, i gefnogi datblygu busnes rhwng Cymru ac Iwerddon. Mae ein cefnogaeth allforio yn canolbwyntio ar, ond nid yw'n gyfyngedig i'r sectorau allweddol canlynol; Ynni Adnewyddadwy, Gweithgynhyrchu Uwch ac Adeiladu, Gofal Iechyd a Gwyddorau Bywyd ac Agritech.



## John O'Loughlin

**Ebost:** john.oloughlin@gov.wales

Ymunodd John â Llywodraeth Cymru yn 2022 ac mae'n rheolwr datblygu busnes profiadol iawn gyda record gref o ran sicrhau canlyniadau masnach a buddsoddi rhwng Iwerddon a'r DU. Mae gan John rwydwaith busnes sefydledig yn Iwerddon gan ganolbwyntio ar y sector technoleg.

# UAE





## Sarah Taylor

**Ebost:** sarah.taylor007@gov.wales


Wedi fy lleoli yn yr UAE, fi yw Pennaeth Llywodraeth Cymru yn rhanbarth y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica. Cylch gwaith fy nhîm yw cefnogi allforwyr o Gymru i ddatblygu eu busnes ar draws amrywiol sectorau. Cyn hynny, roeddwn yn Gyfarwyddwr DIT, UAE rhwng 2020 a 2022, yn Ddirprwy Gyfarwyddwr DIT UAE rhwng 2016 a 2020 ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr, UKTI yn Doha, Qatar. Cyn gweithio i Lywodraeth Cymru, bûm yn gweithio i'r FCDO am 24 mlynedd, gan wasanaethu yn Hong Kong, Beijing a Doha ddwywaith.



## Phil Taylor

**Ebost:** phil.taylor@gov.wales

Fi yw Dirprwy Bennaeth tîm y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica sydd wedi'i leoli yn Dubai. Ar ôl treulio 12+ o flynyddoedd yn byw yn y rhanbarth, rwy'n mwynhau cefnogi allforwyr o Gymru i ddatblygu eu busnes yma ar draws ystod o sectorau. Cyn ymuno â Llywodraeth Cymru, cefais swyddi gyda Masnach a Buddsoddi y DU a Masnach a Buddsoddi Queensland yn Asia a'r Môr Tawel, Ewrop a'r Dwyrain Canol. Mae gen i ystod eang o brofiad ym maes gwerthu, marchnata, rheoli ceisiadau a datblygu busnes yn y sector preifat ar gyfer cwmni electroneg rhyngwladol mawr.



# QATAR




## Aicha Srour

**Ebost:** aicha.srour@gov.wales



Fi yw Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Doha, Qatar, gan ymuno ychydig cyn i Gymru ennill ei lle yng Nghwpan y Byd FIFA yn 2022. Cyn hynny, bûm yn gweithio am bedair blynedd yn rhedeg y tîm gweithrediadau yn Llysgenhadaeth Prydain yn Doha. Mae gen i gefndir cryf mewn datblygu busnes a gwerthiant ac wedi gweithio yn Llundain cyn Qatar, gan werthu'n rhyngwladol, ond nid yn unig i ranbarth GCC. Rwy'n hybu allforion, nwyddau a gwasanaethau Cymru, ar draws sawl sector trwy gysylltu busnesau â rhanddeiliaid allweddol yn Qatar.

## CANOLFAN ALLFORIO BUSNES CYMRU

Yr holl wybodaeth allforio sydd ei angen ar eich busnes.

**https://businesswales.gov.wales/export/cy**

# UDA





## Eoghan O’Regan

**Ebost:** eoghan.oregan@gov.wales

Mae Eoghan yn Ddirprwy Bennaeth Gogledd America i Lywodraeth Cymru ac wedi’i leoli yn Washington DC. Mae croeso i chi gysylltu ag ef os oes gennych ddiddordeb mewn allforio i’r rhanbarth.



## Efe Sokol

**Ebost:** efe.sokol@gov.wales

Am y 13 mlynedd ddiwethaf, rwyf wedi cynrychioli Llywodraeth Cymru yn Efrog Newydd. Ar hyn o bryd, rwy’n arwain cynrychiolaeth Llywodraeth Cymru yng Ngogledd-ddwyrain yr Unol Daleithiau ac yn parhau i gefnogi Allforwyr i ganfod cyfleoedd newydd ar draws pob sector yn y rhanbarth gan gynnwys llywio gwerthu i gynorthwyo sefydliadau sy’n derbyn cyllid fel y Cenhedloedd Unedig



## Kelly Taylor

**Ebost:** kelly.taylor002@gov.wales

Am y 5 mlynedd ddiwethaf, rwyf wedi cynorthwyo cynrychiolaeth Llywodraeth Cymru yn Efrog Newydd ac wedi cefnogi Allforwyr i nodi cyfleoedd newydd ar draws pob sector yn y rhanbarth.

# UDA



## Simon Heydon

**Ebost:** simon.heydon@gov.wales

Rwyf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn Chicago. Rwyf yn gweithio dros 14 talaith yng Nghanolbarth y Gorllewin, ar draws ystod o bynciau gan gynnwys masnach a buddsoddi.



## Erica Stevens

**Ebost:** erica.stevens@gov.wales

Yn arwain yn nhaleithiau deheuol America yn cefnogi allforwyr o Gymru ar draws y diwydiant.

# CANADA





## Andrew Wagstaff

**Ebost:** andrew.wagstaff@gov.wales

Am y pedair blynedd diwethaf, fi sydd wedi rhedeg Swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghanada. Mae ein swyddfa wedi gweithio i gefnogi cwmnïau ar draws pob sector, ond mae cyfleoedd penodol yng Nghanada yn y sectorau hedfan, rheilffyrdd, ynni, gweithgynhyrchu gwerth uchel, a'r sectorau bwyd a diod.



## Yacine Sawadogo

**Ebost:** yacine.sawadogo@gov.wales

Mae ein gwaith ar fasnach rhwng Cymru a Chanada wir wedi tyfu ers i mi ymuno â Llywodraeth Cymru yn 2019, gyda mwy a mwy o gwmnïau yn chwilio am gyfleoedd ym marchnad Canada. Mae ein swyddfa wedi gweithio i gefnogi cwmnïau ar draws pob sector, ond bydd cwmnïau o Gymru sy'n gweithio ym maes awyrennau, rheilffyrdd, ynni, gweithgynhyrchu gwerth uchel, a'r sectorau bwyd a diod yn gweld Canada yn arbennig o ddiddorol.



## Lowri Llewelyn

**Ebost:** lowri.llewelyn@gov.wales

Ymunais â swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghanada yn 2022. Mae'r swyddfa wedi'i lleoli ym Montreal, Quebec ac mae ein cylch gwaith yn cynnwys Canada gyfan. Rydym yn cefnogi allforwyr i nodi cyfleoedd newydd ar draws pob sector yn y wlad.